

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 27<sup>th</sup> June 2016 at 7.05pm**

**PRESENT :-** Deputy Mayor, Councillor D Hainge

Councillors :- Susan Ashworth (Vice-chairman) John Wynn Jones  
Mrs E Butler Colin King  
Les Day D Llewelyn  
Mrs J Forsyth D Madge

G O Roberts  
J Martin  
N Pickavance  
H Williams

Officer : Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

#### **48/16 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from His Worship The Mayor, Councillor D Williams (Holiday), Councillors Mrs J Marshall (holiday), K Marshall (holiday) M Shultan (hospital) and Mair Rowlands (business).

#### **49/16 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

Councillor John Wynn Jones declared an interest in Item 51/16 Urgent Matters

Councillor N Pickavance declared an interest in Item 54/15 Exclusion of Press and Public – Nantporth Stadium CIC

#### **50/16 URGENT MATTERS**

The Town Clerk reported that a request had been received from Ras yr Iaith for sponsorship in respect of the Race for Life celebration of the Welsh language fundraising event. Councillors discussed this at some length and **RESOLVED** that the request be respectfully declined as this would encourage similar request which would be difficult to refuse if this one was acceded to, however the organisers be made aware that the Mayor may consider a suitable donation.

Declaration of interest Councillor John Wynn Jones who took no part in the discussion on the above matter or voted on the matter.

The Clerk reported that One Voice Wales Larger Council Conference would be held at the Royal Welsh Showground in Hafod yr Hendre on 6 July 2016 and a request had come in for the Council to send a representative. **RESOLVED** that Councillor John Martin be appointed to represent the Council this year.

#### **51/16 BANGOR PIER**

The Town Clerk reported that the earlier presentation by Structural Engineers RBA had indicated that the condition of the Pier continued to deteriorate following the survey and inspection of the Pier head East together with supplementary inspection in the centre and towards the coastline.

Since the previous inspection in 2012 most areas of the Pier had continued to deteriorate and it was noted that in the sample areas of the survey some 85% of the steelwork was in poor or very poor condition, it was estimated that the condition of the Pier as a whole some 62% of the steel work would be in similar poor condition. The Town Clerk gave some options to the Committee as to the possible resolution and repair schedule of the Pier, he also outlined the possible grants that could be applied for, however as most of the work required was maintenance and repair therefore some grants would not apply. Members considered the matter in some depth and expressed concern at the continuing decline in the condition of the Pier and it was recognised that some immediate restoration was required as further deterioration of parts of the Pier could lead to a more expensive regime of repair and even closure of the Pier.

Some 13 girders and 13 braces had been inspected and from these assemblies the Town Clerk explained that a cost per component could be established to build-up an overall cost of repair as well as a cost for the repair of the handrails.

**RESOLVED** that the Town Clerk take steps to –

- a) Obtain the relevant permits from the Natural Resources Wales and liaise with other interested parties to begin the process of repairs and maintenance
- b) To obtain quotations for the work involved
- c) To ascertain if the in-house workforce would be able to undertake most of the work
- d) To report to the Staffing Committee on staffing resources required to undertake the work and timescales
- e) To report back as soon as possible with a relevant methodology and pricing structure for the repair work.

It was noted that some kiosk holders would be interested in the future improvement and promotion of the Pier as a tourist attraction **RESOLVED** that the Town Clerk write to kiosk holders at the Pier to arrange a meeting with Councillors to ascertain their views and ideas as to how best to take the Pier forward as a tourist attraction and improve relevant footfall at the site.

**52/16 INVOICES FOR PAYMENT**

It was **RESOLVED** to approve for payment the invoices as detailed on the schedule covering Voucher Nos. 44/16 to 58/16 totalling £15,331.44.

**53/15 EXCLUSION OF THE PRESS AND PUBLIC**

It was **RESOLVED** that in accordance with Section 1 of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, the Press and Public be excluded during discussion of the following items relating to staffing matters which includes information of a confidential nature:

**Nantporth Stadium CIC Lease & Rent** – The Town Clerk reported details of a request in respect of conditions of the lease and rent. Members considered the detail including the Company's Annual Report and details of the accounts.

Historical information was discussed in regard to the report and it was noted that Bangor City Council had given support to BCFC both at its current home and at Farrar Road. **RESOLVED** that the Town Clerk write to the Chairman of Nantporth CIC informing them that the Council had considered their request but at this point in time it could not be acceded to.

Declaration of interest by Councillor N Pickavance who took no part in the discussion on the above Item.

**Land at St. John Church, High Street** - The Town Clerk reminded Members of their agreement to lease this particular piece of land to Trustees of the Church to enable them to proceed with a significant development proposal at the site.

Terms of the proposed lease had been discussed with the Valuation Office and a Legal Advisor and the Trustees had indicated their preferences in this matter. Members considered the issues at some length. The detail of the length of the lease together with the ongoing rental were also discussed.

**RESOLVED** that a long lease of 99 years be offered, with the retention of the public seating at the site and the financial details as outlined by the Town Clerk be agreed.

---

The Meeting finished at 7.48 pm

Cofnodion y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, Nos Lun 27 o Fehefin 2016 am 7.05 y.h.

**PRESENNOL :-**

Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd D Hainge			
Cynghorwyr	Susan Ashworth (Is-gadeirydd)	John Wynn Jones	G O Roberts
	Mrs E Butler	Colin King	J Martin
	Les Day	D Llewelyn	N Pickavance
	Mrs J Forsyth	D Madge	H Williams

Swyddog : Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

**48/16 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan, Ei Deilyngdod y Maer y Cynghorydd D Williams (gwyliau), y Cynghorwyr Mrs J Marshall (gwyliau), K Marshall (gwyliau) M Shultan, Cadeirydd (ysbyty) a Mair Rowlands (busnes).

**49/16 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLTIAD PERSONOL**

Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd John Wynn Jones ar Eitem 51/16 Materion Brys

Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd N Pickavance ar Eitem 54.15 Gwahardd y Wasg a'r cyhoedd - Stadiwm Nantporth CIC

**50/16 MATERION BRYS**

Adroddodd Clerc y Dref fod cais wedi'i dderbyn gan Ras yr Iaith am nawdd ar gyfer y digwyddiad i ddathlu'r iaith Gymraeg. Cafwyd trafodaeth hir ar hyn a **PHENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn anffodus gan y byddai hyn yn annog ceisiadau tebyg y byddai'n anodd eu gwrthod. Fodd bynnag, gellid dweud wrth y trefnwyr y gall y Maer ystyried rhodd addas.

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd John Wynn Jones na chymerodd ran yn y drafodaeth ac na phleidleisiodd ar y mater chwaitha.

Adroddodd y Clerc y byddai Cynhadledd Cynghorau Mwy Un Llais Cymru'n cael ei chynnal ar Faes y Sioe Frenhinol yn Hafod yr Hendre ar 6 Gorffennaf 2016. Cafwyd cais ar i'r Cyngor anfon cynrychiolydd. **PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd John Martin i gynrychioli'r Cyngor eleni.

**51/16 PIER BANGOR**

Adroddodd Clerc y Dref fod y cyflwyniad cynharach gan y Peirianwyr Adeiladu RBA wedi dangos fod cyflwr y Pier wedi parhau i ddirywio yn dilyn arolwg ac archwiliad o ben Dwyreiniol y Pier ynghyd ac archwiliad ategol yn y canol a thaug at yr arfordir.

Ers yr archwiliad cynt yn 2012 roedd y rhan fwyaf o'r Pier wedi parhau i ddirywio a nodwyd, yn ardaloedd sampl yr arolwg, fod rhw 85% o'r gwaith dur mewn cyflwr gwael neu wael iawn. O ran cyflwr y Pier yn gyffredinol, amcangyfrifwyd y byddai tua 62% o'r gwaith dur mewn cyflwr yr un mor wael. Rhoddodd Clerc y Dref rai opsiynau i'r Pwyllgor o ran y ffordd o ddatrys hyn a thrwsio'r Pier, amlinellodd hefyd y grantiau posibl y gellid gwneud cais amdanynt. Fodd bynnag, ni fyddai rhai grantiau'n gymwys gan mai gwaith cynnal a chadw a thrwsio oedd y rhan fwyaf o'r gwaith oedd ei angen. Bu'r aelodau'n ystyried y mater yn fanwl gan fynegi pryder am y dirywiad parhaus yng nghyflwr y Pier. Ystyriwyd fod angen gwneud rhywfaint o waith adfer yn syth gan y byddai i rannau o'r Pier ddirywio ymhellach olygu talu hyd yn oed yn fwy am waith atgyweirio a hyd yn oed gau'r Pier.

Rodd rhyw 13 o hytrawstiau a 13 o gyplysau wedi cael eu harchwilio ac o'r herwydd eglurodd Clerc y Dref y gellid sefydlu cost fesul cydran er mwyn cael syniad o gost gyffredinol y gwaith trwsio yn ogystal â chost i drwsio'r canllawiau.

**PENDERFYNWYD** fod Clerc y Dref yn cymryd camau i –

- a) Gael y caniatadau perthnasol gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chysylltu â phartïon eraill â diddordeb i ddechrau'r broses drwsio a chynnal a chadw
- b) Cael dyfynbrisiau am y gwaith dan sylw
- c) Canfod a allai'r gweithlu mewnol ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith
- d) Adrodd i'r Pwyllgor Staffio ar yr adnoddau staffio fyddai eu hangen i wneud y gwaith ynghyd â'r amserlen
- e) Adrodd yn ôl cyn gynted â phosibl gyda methodoleg berthnasol a strwythur brisio ar gyfer y gwaith atgyweirio.

Nodwyd y byddai gan rai o ddeiliaid y ciosgau ddiddordeb mewn gwella a hyrwyddo'r Pier yn y dyfodol fel atyniad i ymwelwyr. **PENDERFYNWYD** y byddai Clerc y Dref yn ysgrifennu at y deiliaid ciosg ar y Pier i drefnu cyfarfod gyda'r Cynghorwyr i ganfod eu barn a'u syniadau ynghylch y ffordd orau i wella'r Pier fel atyniad i ymwelwyr a gwella'r nifer sy'n dod i'r safle.

## 52/16 ANFONEBON I'W TALU

**PENDERFYNWYD** derbyn a chaniatáu talu'r anfonebau fel eu ceir yn y Rhestr, yn cynnwys Talebau Rhif. 44/16 i 58/16 yn rhoi cyfanswm o £15,331.44.

## 53/16 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** yn unol ag Adran 1 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd yn ystod trafodaeth yr eitemau canlynol ynglŷn â materion staffio sydd yn cynnwys gwybodaeth o natur gyfrinachol:

**Les a Rhent Stadiwm Nantporth CIC** – Adroddodd Clerc y Dref ar fanylion cais ynglŷn ag amodau'r les a'r rhent. Bu'r aelodau'n ystyried y manylion yn cynnwys Adroddiad Blynnyddol y Cwmni a'r cyfrifon.

Trafodwyd gwybodaeth hanesyddol o safbwyt yr adroddiad a nodwyd fod Cyngor Dinas Bangor wedi rhoi cefnogaeth i Glwb Pêl-droed Dinas Bangor, yn ei gartref presennol ac yn Ffordd Farrar. **PENDERFYNWYD** fod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Gadeirydd Nantporth CIC yn dweud wrtho fod y Cyngor wedi ystyried y cais ond na allai gytuno iddo ar hyn o bryd.

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cyngorydd N Pickavance ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth ar yr Eitem uchod.

**Tir yn Eglwys Sant Ioan, y Stryd Fawr** – Atgoffodd Clerc y Dref yr Aelodau am eu cytundeb i roi'r darn yma o dir ar les i Ymddiriedolwyr yr Eglwys er mwyn eu galluogi i symud ymlaen â datblygiad pwysig ar gyfer y safle.

Roedd telerau'r les arfaethedig wedi cael eu trafod â'r Swyddfa Brisio a Chyngorydd Cyfreithiol ac roedd yr Ymddiriedolwyr wedi nodi sut yr hoffent weld hyn yn digwydd. Cafwyd trafodaeth gan yr aelodau. Trafodwyd hefyd fanylion y les ynghyd â'r rhent.

**PENDERFYNWYD** cynnig les hir o 99 mlynedd, gan gadw'r seddi cyhoeddus ar y safle a chael cytundeb ar y manylion ariannol fe ag y'u hamlinellwyd gan Glerc y Dref.

---

Gorffennwyd y Cyfarfod am 7.48 p.m.